

## Datganiad Cydymffurfiaeth Blynyddol

Cymdeithas Tai Wales & West Cyfyngedig Rhif Cofrestru 21114R, Swyddfa Gofrestredig – Tŷ Archway, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

Yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, mae'r Datganiad Cydymffurfiaeth blynyddol hwn yn cadarnhau bod y Gymdeithas wedi bodloni'r safonau perfformiad fel y'u pennwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 33A Deddf Tai 1996.

Lle na ellir dangos tystiolaeth o gydymffurfio'n llawn ag unrhyw un o'r safonau perfformiad, nodir yr eglurhad a darperir crynodeb o'r camau gweithredu i'w cymryd (gan gynnwys amserlen) i wella'r sefyllfa gydymffurfiaeth. Mae'r eglurhad a'r camau gwella yn amodol ar drafodaeth/asesiad gyda'r Rheoleiddiwr.

### Safon Perfformiad

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
PS1.0	<b>Rheolaeth effeithiol y Bwrdd a'r swyddogion gweithredol, gyda gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig</b>			
	1.1 Gosod gweledigaeth a gwerthoedd clir ar gyfer y sefydliad sy'n cyflawni ac yn datblygu diben craidd y busnes	O	<p>Cytunodd y Bwrdd ar weledigaeth WWH (twf cryf, cynaliadwy er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl) yn 2011. Mae'r weledigaeth hon a'i gwerthoedd (teg, agored, cyfrifol, cefnogol ac effeithlon) wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu deall yn y busnes, fel y gwelir yn arolwg ymgysylltu â chyflogeion Cwmniau Gorau ac asesiad BmP. Atgynhyrchir y weledigaeth a'r gwerthoedd ar wefan WWH, yn ogystal ag mewn nifer o gyhoeddiadau eraill, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol, a'r Cynllun Busnes.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn cyflawni rôl gweithredol yn y gwaith o ddatblygu a chymeradwyo'r Cynllun</p>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			Busnes treigl 5 mlynedd (gweler cofnodion y Bwrdd, Medi 2020, eitem 14.01) sy'n nodi manylion y ffordd y cyflawnir y weledigaeth.	
	1.2 Mae'r trefniadau llywodraethu yn sefydlu ac yn cynnal rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer y Bwrdd, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ac yn sicrhau bod trefniadau uniondeb priodol yn eu lle.	O	<p>Mae'r fframwaith llywodraethu cyffredinol wedi'i gynnwys yn Rheolau'r Gymdeithas (diweddarwyd Hydref 2019), Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Gymdeithas (a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2017, ond y byddant yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn 2021). Mae'r rhain yn nodi rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y Bwrdd, y Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Grŵp. Nodir gwybodaeth fanylach am y rhain ac am rolau eraill mewn proffiliau rôl unigol sydd mewn grym ar gyfer y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd, a gafodd eu hadolygu, eu diweddarau a'u cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'r broses o ddatblygu dogfennaeth y pecyn cymorth llywodraethu ym mis Tachwedd 2019 (Tachwedd 2019, cofnod y Bwrdd, 12.02).</p> <p>Mae'r Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio (U&amp;A) yn cynorthwyo'r Bwrdd. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys adolygu'r trefniadau llywodraethu, gan sicrhau bod unrhyw wendidau mewn safonau yn cael eu hunioni yn gyflym. Nodir swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Pwyllgor U&amp;A yn y Rheolau Sefydlog. Cynhelir adolygiad cynhwysfawr o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau</p>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>eu bod yn berthnasol ac yn addas i'r diben yng ngoleuni newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar (Bwrdd Chwefror 2021, eitem 12.04 ar yr agenda).</p> <p>Yn dilyn yr adolygiad llywodraethu a gynhaliwyd yn ddiweddar, mae Cadeirydd U&amp;A yn rhoi diweddariad byr i'r Bwrdd ar lafar erbyn hyn, er mwyn amlygu unrhyw faterion neu bryderon allweddol a ystyrir gan y Pwyllgor. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cael copi o gofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor U&amp;A er gwybodaeth, a gall droi at agenda ac adroddiadau U&amp;A trwy Becynnau'r Bwrdd. Yn ogystal, caiff adroddiad blynyddol sy'n rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor U&amp;A ei baratoi a'i gyflwyno i'r Bwrdd (Chwefror 2021, eitem 12.03 ar agenda y Bwrdd, atodiad 1).</p> <p>Yn unol ag arfer gorau, cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar draws Grŵp WWH gan y Rheolwr Llywodraethu trwy gydol 2019/20, a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i Fwrdd Grŵp WWH ym mis Tachwedd 2020. (Bwrdd Tachwedd 2020, eitem 12.03 ar yr agenda, atodiad 1).</p> <p>Roedd yr adolygiad yn ceisio gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, ac er ei fod wedi amlygu nad oedd unrhyw faterion o arwyddocâd perthnasol, er hyn, gwnaeth 32 o argymhellion er mwyn sicrhau gwelliant.</p>	<p>Gweithredu argymhellion yr adolygiad yn unol â'r cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan y Bwrdd.</p>

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			Cymeradwyodd y Bwrdd y cam o weithredu'r 32 argymhelliad, yr amserlenni a'r dull arfaethedig a nodwyd mewn cynllun gweithredu a gyflwynwyd i'r Bwrdd law yn llaw â'r adroddiad terfynol yn ystod ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020 (eitem 12.03 ar yr agenda, atodiad 2).	
	<b>1.3</b> Cydymffurfio â dogfennau llywodraethu gan gynnwys mabwysiadu, a chydymffurfio â chod llywodraethu priodol.	O	<p>Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru ar gyfer y sector. Ar ôl gweithredu taliad cydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau Bwrdd a Phwyllgor Anweithredol, cytunodd y Bwrdd y byddai Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru yn cael ei fabwysiadu ar draws y Grŵp, ac felly, y byddai'n fesur o lywodraethu da ar gyfer holl gwmnïau'r Grŵp.</p> <p>Adolygwyd cydymffurfiaeth gyda'r Cod Llywodraethu gan GM fel rhan o'r adolygiad llywodraethu. Casglwyd tystiolaeth ynghylch cydymffurfiaeth ac fe'i chyflwynwyd i'r Bwrdd ac i Bwyllgor U&amp;A fel rhan o'r adroddiad am ganfyddiadau'r adolygiad llywodraethu (U&amp;A Hydref 2020, eitem 09.02 ar yr agenda, atodiad 2). Mae'r Cod yn cynnwys 74 o arferion a argymhellir y bydd sefydliad yn dymuno ystyried eu gweithredu efallai er mwyn bodloni gofynion pob egwyddor. O blith y 74 argymhelliad, roedd digon o dystiolaeth i ddynodi cydymffurfiaeth lawn gyda 63 o'r rheiny, a nodwyd camau gweithredu er mwyn sicrhau</p>	Fel yr uchod, parhau i weithredu argymhellion yr adolygiad yn unol â'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno er mwyn gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r 74 o arferion a argymhellwyd ac a nodwyd yn y Cod.

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>gwelliant mewn perthynas â'r 11 a oedd yn weddill.</p> <p>Nid yw cydymffurfiaeth gyda'r Cod, fodd bynnag, yn ddibynnol ar ddangos cydymffurfiaeth lem gyda phob argymhelliad, felly gan ystyried yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd, penderfynodd GM bod dystiolaeth ddigonol i ddod i'r casgliad bod WWH yn cydymffurfio'n llawn gyda Chod Cydymffurfiaeth CCC.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Cod Llywodraethu yn sail i'r arfarniadau effeithiolrwydd tîm blynyddol ar gyfer Bwrdd Grŵp WWH a Bwrdd Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria, yn ogystal ag arfarniad tîm Pwyllgor U&amp;A.</p>	
	<p><b>1.4</b> Cydymffurfio â'r holl gyfraith berthnasol.</p>	<p>O</p>	<p>Cynlluniwyd systemau, prosesau a llif gwaith ar draws y sefydliad i sicrhau bod WWH yn cydymffurfio â'r gyfraith. Rhoddir sylw i weithgareddau allweddol sy'n destun materion cyfreithiol / rheoliadol mewn polisiau, gweithdrefnau a nodiadau arweiniad wedi'u dogfennu, a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd.</p> <p>Mae aelodaeth gorfforaethol o sefydliadau perthnasol (e.e. Cartrefi Cymunedol Cymru), deunydd briffio gan gynghorwyr proffesiynol, rhwydweithio cyffredinol a darparu hyfforddiant / cymorth / goruchwyliaeth barhaus o staff yn</p>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydymffurfio a newidiadau mewn deddfwriaeth / gofynion rheoleiddiol.</p> <p>Rhoddir sicrwydd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys mesurau perfformiad (e.e. gwasanaethu nwy), ffurflenni rheoliadol, archwiliadau ac adolygiadau allanol ac archwiliadau lechyd a Diogelwch. Yn ogystal, adolygir gweithgareddau dan weithgarwch Archwilio Mewnol yn unol â rhaglen waith sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, ac a gymeradwyir gan y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio.</p>	
<b>PS2.0</b>	<b>Cyfraniad effeithiol a phriodol tenantiaid a gwasanaethau o ansawdd uchel ac sy'n gwella</b>			
	2.1 Dangos sut y mae tenantiaid yn ymwneud â gweithgarwch penderfynu strategol mewn ffordd effeithiol, ac yn siapio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer tenantiaid a'r sefydliad.	O	Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2017 yn nodi sut y mae cyfranogiad tenantiaid yn rhan annatod o waith y Gymdeithas trwy ei hegwyddorion gweithredol sy'n rhan o ffordd Tai Wales & West (ffordd WWH). Mae ffordd WWH yn disgrifio ymagwedd y sefydliad tuag at redeg y busnes, ac mae'n rhoi cwsmeriaid wrth wraidd popeth. Caiff ymagwedd WWH tuag at Gyfranogiad Preswylwyr ei dywys a'i hysbysu gan grŵp o breswylwyr ymroddedig, y Grŵp Llywio Cyfranogiad Preswylwyr. Caiff cyfranogiad preswylwyr ei hyrwyddo trwy wefan WWH, cylchgrawn In Touch a'r Swyddog Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr.	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>Ymgysylltir yn rheolaidd â phreswylwyr trwy gyfrwng ymarferion 'asesu'r galw' a gynhelir gan staff er mwyn deall 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt. Mae hyn yn rhan o'r ymagwedd meddwl trwy gyfrwng systemau a fabwysiadwyd ar draws y Gymdeithas. Caiff gwasanaethau eu siapio a'u hailgynllunio er mwyn cyflawni blaenoriaethau preswylwyr, a cheisir adborth gan breswylwyr yn rheolaidd am berfformiad a'r cwestiwn ynghylch a yw blaenoriaethau a'r 'hyn sy'n bwysig' wedi newid. Gwelwyd y dull gweithredu hwn yn parhau trwy gydol 2020 er gwaethaf sialensiau newydd ac a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig. Gwnaethpwyd galwadau lles i tua 3,000 o breswylwyr er mwyn deall eu problemau neu eu pryderon yn well, gan sicrhau bod y cymorth perthnasol mewn grym ar eu cyfer, ac er mwyn cynnig help gyda siopa neu daliadau rhent yn ôl y gofyn.</p> <p>Datblygir mesurau perfformiad er mwyn deall pa mor dda y mae'r Gymdeithas yn cyflawni blaenoriaethau preswylwyr, a chyflwynir y canlyniadau i'r Bwrdd bob chwarter, ac fe'u dangosir fel tuedd dros gyfnod o amser, ynghyd â naratif (hunanwerthusiad) ynghylch sut y cyflawnir gwelliannau pellach. Rhennir y perfformiad chwarterol ynghylch y gwasanaethau a ddarparir a'r</p>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			camau gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant gyda phreswylwyr trwy gyfrwng cylchgrawn In-Touch fel cyfres o ffeithluniau.	
<b>PS2.0</b>	<b>Cyfraniad effeithiol a phriodol tenantiaid a gwasanaethau o ansawdd uchel ac sy'n gwella</b>			
	2.2 Bodloni'r holl ofynion statudol perthnasol sy'n darparu ar gyfer iechyd a diogelwch deiliaid yn y cartref.	O	<p>Mabwysiadir ymagwedd gynhwysfawr tuag at gydymffurfiaeth eiddo, ac mae'n rhan o gyfres o fframweithiau sicrwydd sy'n nodi manylion y trefniadau rheoli a'r 'dair linell amddiffyn' sydd mewn grym er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch preswylwyr a'u cartrefi. Darparir adroddiad cydymffurfiaeth manwl i'r Bwrdd bob chwarter, sy'n rhoi sylw i brif feysydd iechyd a diogelwch eiddo, sy'n dangos cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol.</p> <p>Cynhelir archwiliadau mewnol ac allanol yn rheolaidd ynghylch agweddau ar gydymffurfiaeth eiddo.</p>	
<b>PS3.0</b>	<b>Asesiad cynhwysfawr o effeithiau risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ar y busnes, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn</b>			
	3.1 Diogelu buddiannau trethdalwyr ac enw da y sector, a diogelu asedau tai cymdeithasol.	O	<p>Mae gan y Gymdeithas brosesau busnes a rheoli ariannol effeithiol mewn grym. Mae'r rhain yn cynnwys:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol sy'n nodi materion a neilltuir i'r Bwrdd ac awdurdod dirprwyedig;</li> </ul>	Adolygu a diweddarau'r Rheolau Sefydlog, y Rheoliadau Ariannol



Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth ariannol a gymeradwyir gan y Bwrdd bob blwyddyn;</li> <li>• Rhagolygon tymor byr, canolig a hir ynghylch llif arian, sy'n dangos, gyda chymorth gweithgarwch dadansoddi sensitifwydd cynhwysfawr, hyfywedd y busnes; a</li> <li>• Chyfrifon rheoli chwarterol gyda dadansoddiad amrywiant.</li> </ul> <p>Yn unol â'r polisi rheoli risg, cedwir cofrestr risg gorfforaethol. Caiff y gofrestr ei hadolygu a'i diweddarau, yn ôl yr angen, gan uwch-reolwyr bob chwarter. Mae'r gofrestr yn cynnwys risgiau a gaiff eu cynnwys yn nogfen risgiau sector Llywodraeth Cymru, a asesir fel rhai sy'n peri pryder i'r Grŵp, yn ogystal â risgiau eraill sy'n peri bygythiad sylweddol i'r busnes.</p> <p>Yn dilyn adolygiad o risg a sicrwydd yn 2020 (diwrnod cwrdd i ffwrdd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020 a hyfforddiant ar gyfer y Bwrdd ym mis Medi 2020), mae gan y Bwrdd drosolwg o'r risg trwy gyfrwng yr adroddiad wedi'i ailffurfio sy'n cynnig diweddariad am sicrwydd a pherfformiad, a ddarparir i'r Bwrdd bob chwarter (Bwrdd Medi 2020, eitem 12.01 ar yr agenda, Bwrdd Tachwedd 2020, eitem 12.01 ar yr agenda, Bwrdd Chwefror 2021, eitem 12.01 ar yr agenda). Ar gyfer rhai risgiau, fel y pennir gan y Bwrdd a/neu'r</p>	<p>a'r trefniadau dirprwyo awdurdod yn unol ag argymhellion yr adolygiad llywodraethu.</p>

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			Swyddogion Gweithredol, darparir sicrwydd pellach trwy gyfrwng gweithgarwch adrodd ychwanegol (e.e. llif arian a chyfamodau).	
<b>PS3.0</b>	<b>Asesiad cynhwysfawr o effeithiau risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ar y busnes, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn</b>			
	3.2 Asesu bod y gallu i fanteisio ar gyfleoedd busnes a datblygu newydd yn gadarn.	O	<p>Mae'r holl brosiectau newydd a newidiadau i weithgareddau yn destun adroddiad penodol i'r Bwrdd, sy'n cynnwys gwerthusiad o'r prosiect, yr effaith a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflawni neu beidio cyflawni'r prosiect, ac asesiad o'r risgiau. Yn ôl yr angen, megis ar gyfer cyfleoedd busnes a datblygu newydd, cynhelir arfarniad ariannol llawn ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd er mwyn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cael diweddariad am y sefyllfa ariannol yn ystod pob cyfarfod, sy'n proffilio goblygiadau ariannol ymrwymadau pellach yng nghyd-destun ymrwymadau a gweithgarwch benthyca cyfredol (Rhagfyr 2020, cofnodion y Bwrdd, eitem 05).</p>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
PS3.0	Asesiad cynhwysfawr o effeithiau risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ar y busnes, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn			
	<p><b>3.3</b> Cynnal profion straen manwl a chadarn ar gynlluniau ariannol ar sail amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan nodi strategaethau lliniaru priodol.</p>	O	<p>Cynhelir profion straen ar y cynlluniau 5 a 30 mlynedd blynyddol gan ddefnyddio nifer o sefyllfaoedd unigol (megis cyfraddau llog, chwyddiant a chostau cynnal a chadw yn codi, yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd rhent yn gostwng neu'n aros yr un fath), ac yna fel sefyllfaoedd amrywiol er mwyn rhoi syniad o'r hyn a fyddai'n "torri'r" cynllun a hyd y cyfnod sydd ar gael i gymryd camau unioni.</p> <p>Yn ystod ei gyfarfodydd ym mis Mai a mis Gorffennaf, mae'r Bwrdd yn trafod ac yn cymeradwyo'r elfennau sensitifrwydd posibl i'w cynnwys yn y cynllun busnes. Roedd yr elfennau sensitifrwydd hyn yn cyd-fynd yn agos gyda'r eitemau ariannol yng nghofrestr risg y Gymdeithas, gan gynnwys incwm (rheoli rhent, Credyd Cynhwysol), costau (risg diffyg pensiwn a'r risg o weld costau cynnal a chadw a chostau gweithredol eraill yn codi), y sefyllfaoedd economaidd posibl o ganlyniad i bandemig Covid 19 a benthyciadau (torri cyfamod, diogelwch annigonol a risg cyfradd llog) (gweler cofnodion y Bwrdd Mai 2020 eitem 12.02).</p>	
	3.4 Cyn ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau newydd, sicrhau y deallir ymrwymadau yn	O	Mae unrhyw brosiect newydd neu newidiadau i weithgareddau, y gallent gynnwys risgiau sylweddol,	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
	llawn a dangos yr ystyrir sut y rheolir yr effaith debygol ar gydymffurfiaeth rheoleiddiol a chydymffurfiaeth y busnes yn y dyfodol.		<p>yn destun adroddiad penodol i'r Bwrdd sy'n amlinellu manteision a risgiau posibl cynnal y gweithgarwch newydd (e.e. sicrhau cyllid trwy ymrwymo i leoliad preifat, gweler cofnodion y Bwrdd, Hydref 2020 a phenderfyniadau ynghylch ad-drefnu stoc, gweler cofnod 12.02 cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2020).</p> <p>Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol flynyddol, sy'n nodi manylion y dull gweithredu ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau newydd, ynghyd â'r tybiaethau sy'n cynnig sylfaen ar gyfer yr arfarniadau ariannol a ddefnyddir ar gyfer datblygiadau a mentrau newydd (cofnodion y Bwrdd, Rhagfyr 2020, eitem 07.02). Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo benthyciadau newydd yn unigol, ar ôl ystyried unrhyw oblygiadau ac effaith ar gyfamodau (cofnodion y Bwrdd, Rhagfyr 2020, eitem 07.02).</p>	
<b>PS4.0</b>	<b>Tystiolaeth glir o hunanwerthuso a datganiad cydymffurfiaeth</b>			
	4.1 Cydymffurfiaeth â Chylchlythyr 02/15 – egwyddorion craidd hunanwerthuso, i'w defnyddio gan Gymdeithasau Tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, neu unrhyw ganllawiau dilynol sy'n disodli'r Cylchlythyr hwn.	O	Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu proses hunanwerthuso barhaus sy'n seiliedig ar egwyddorion gweithredol WWH. Mae staff a rheolwyr yn defnyddio egwyddorion gweithredol 'Gwybod, Deall, Gwella' yn barhaus er mwyn nodi meysydd i'w gwella ym mhob un o'r prif systemau ac mewn gwasanaethau cymorth, ynghyd â	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>materion traws-sefydliadol mwy sylweddol. Caiff gwelliannau eu crisialu a'u hadolygu gan Gyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Rheoli Uwch (TRhU), a chan ddibynnu ar eu graddfa, adroddir amdanynt wrth y Bwrdd bob chwarter ac maent yn ffurfio hunanwerthusiad a/neu gynllun corfforaethol y Gymdeithas. Yn ogystal, caiff naratif o'r prif waith gwella a gaiff ei gynnal fel rhan o'r hunanwerthusiad ei gynnwys gyda'r ffeithluniau ar berfformiad y gwasanaeth yn y cylchgrawn i breswylwyr, In Touch.</p> <p>Caiff y datganiad cydymffurfiaeth blynyddol ei baratoi gan y Rheolwr Llywodraethu, a bydd yn destun archwiliad gan y Rheolwr Archwilio Mewnol, cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w adolygu a'i gymeradwyo.</p>	
<b>PS5.0</b>	<b>Hanes o lwyddiant wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol, gan ymateb mewn ffordd briodol i sialensiau newydd a materion perfformiad</b>			
	5.1 Dangos sut y mae'r Bwrdd yn sicrhau ei hun am berfformiad cyfredol, gan gynnwys bodlonrwydd tenantiaid, ac yn ysgogi gwelliant parhaus.	O	Mae'r Tîm Data yn coladu amrediad o Fesurau Gweithredol, gan gynnwys rhai mesurau bodlonrwydd preswylwyr, a adroddir i'r Bwrdd trwy gyfrwng yr adroddiad chwarterol sy'n cynnig diweddariad am Sicrwydd a Pherfformiad. Mae naratif sy'n rhoi crynodeb o hunanwerthusiad y Gymdeithas a'r camau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwella perfformiad, yn cyd-fynd â'r mesurau, sy'n dangos perfformiad dros gyfnod o amser.	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd camau gweithredu mwy trwy gyfrwng adran "Cynnydd gyda phrosiectau corfforaethol" yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am y cynnydd mewn perthynas â'r prosiectau corfforaethol, mae'r Bwrdd wastad wedi cael diweddariadau trwy gyfrwng adroddiad chwarterol. Adolygir ffurf yr adroddiad hwn ac amrediad y mesurau yn rheolaidd, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion y Bwrdd. Adolygwyd ffurf yr adroddiad yn ddiweddar ac fe'i addaswyd yn dilyn sgysiau ehangach gyda'r Bwrdd ynghylch Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd yn ei ffurf newydd yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2020 (eitem 12.01 ar yr agenda). Bellach, mae'r Bwrdd yn cael adroddiad sy'n cynnig diweddariad am y cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y cynllun corfforaethol bob chwarter, a darparir gwybodaeth fanylach trwy gyfrwng cyfres o atodiadau a ddarparir i'r Bwrdd trwy gyfrwng Pecynnau Bwrdd.</p> <p>Cyflwynir cyfres o adroddiadau 'alldro' i'r Bwrdd bob blwyddyn, sy'n nodi manylion perfformiad ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r canlynol:</p>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwynion</li> <li>• Yr Iaith Gymraeg</li> <li>• Atal caethwasiaeth a masnachu pobl</li> <li>• Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</li> <li>• Adnoddau dynol</li> <li>• Iechyd a Diogelwch</li> <li>• Datblygu cartrefi newydd</li> <li>• Gwneud gwahaniaeth (Buddion cymunedol)</li> <li>• Gwaith Cynnal a Chadw mawr</li> </ul> <p>Cyflwynwyd set ddiwethaf yr adroddiadau alldro i'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020 ac fe'u cyflwynir eto ym mis Mawrth 2021.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn cael adborth gan breswylwyr am wasanaethau trwy gyfrwng amrediad o arolygon, gan gynnwys arolwg cynhwysfawr a gynhelir bob tair blynedd gan sefydliad annibynnol. Adroddwyd canlyniadau'r arolwg bodlonrwydd preswylwyr diwethaf i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020 (eitem 10.11 ar yr agenda).</p>	
<b>PS5.0</b>	<b>Hanes o lwyddiant wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol, gan ymateb mewn ffordd briodol i sialensiau newydd a materion perfformiad</b>			
	5.2 Dangos sut mae gosodiadau yn gwneud y defnydd gorau o dai sydd ar gael, gan gyd-fynd â dibenion craidd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.	O	Mae WWH yn gosod tua 90% o'i chartrefi trwy gofrestrau tai cyffredin ac mae'n cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, sy'n rheoli'r rhestrau, er mwyn sicrhau mynediad teg a hawdd i bobl y mae	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Cantau Gwella
			<p>angen tai arnynt. Adroddir am berfformiad mewn perthynas â gosod i'r Bwrdd bob chwarter, gan gynnwys manylion cynigion a wnaethpwyd a lle y gwelir problemau gyda'r galw. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cael adroddiad amhariad bob blwyddyn sy'n cynnwys manylion eiddo llai poblogaidd. (gweler adroddiad i'r Bwrdd, Mawrth 2020, 12.01).</p> <p>Mae Grŵp Rheoli Asedau, sy'n cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, yn adolygu holl stoc y Gymdeithas yn rheolaidd, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch gwaredu neu ailfodelu.</p>	
<b>PS6.0</b>	<b>Sicrhau gwerth am arian ym mhob maes o'r busnes</b>			
	6.1 Dangos ymagwedd strategol at, a sicrhau gwerth am arian ar draws y busnes o ran costau a thaliadau gweithredol i'r tenantiaid a defnyddwyr y gwasanaeth.	O	Mae'r ymagwedd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ynghylch Gwerth am Arian yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth, caffael a chyllid (effeithlonrwydd trysorlys a threth), gyda phwyslais ar sicrhau gwerth yn hytrach nag arbed arian yn unig. Mae'r ymagwedd tuag at gostau gweithredol yn canolbwyntio ar 'wneud yr hyn sy'n bwysig' i gwsmeriaid, cynllunio systemau er mwyn bodloni eu galwadau a gwaredu gwastraff yn y systemau hynny. Mae'r Bwrdd yn asesu hyn trwy gyfrwng mesurau yn yr adroddiad perfformiad chwarterol,	



Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>sy'n canolbwyntio ar wneud y peth iawn y tro cyntaf (e.e. trwsio yn iawn y tro cyntaf, cadw apwyntiad, gosod yn iawn y tro cyntaf ac ati).</p> <p>Mae'r adroddiad am sicrhau ansawdd perfformiad chwarterol yn cynnwys adran naratif am reolaeth ariannol a gwerth am arian, a darparir gwybodaeth fanwl i'r Bwrdd mewn nifer o atodiadau ategol a ddarparir i'r Bwrdd mewn Pecynnau Bwrdd (gweler cyfarfod Bwrdd Medi 2020, eitem 12.01 ar yr agenda). Mae'r rhain yn cynnwys crynodeb penodol ar werth am arian sy'n dangos y mesurau y mae'r Gymdeithas wedi'u mabwysiadu ar effeithlonrwydd gweithredol, gan ganolbwyntio ar dueddiadau dros gyfnod o amser mewn costau ac incwm fesul uned, ail-fuddsoddi mewn eiddo, gan gynnwys tueddiadau costau ar geginau, ystafelloedd ymolchi a boeleri, effeithlonrwydd trysorlys ac arian rhydd.</p>	
<b>PS7.0</b>	<b>Cydydffurfio â gofynion a chanllawiau rheoleiddiol a statudol</b>			
	7.1 Cyfathrebu mewn modd amserol â'r rheoleiddiwr ar faterion sylweddol sy'n ymwneud â diffyg cydydffurfiaeth.	O	Mae'r Gymdeithas yn cynnal perthynas waith dda gyda'r Rheolydd, sy'n seiliedig ar gyfathrebu agored, gonest a thryloyw, felly adroddir am unrhyw bryderon neu achosion o ddiffyg cydydffurfiaeth i'r Rheolydd bob amser, mor gynnar ag y bo modd.	
	7.2 Cydydffurfio â phob un o'r gofynion rheoleiddiol.	O	Mae'r Gymdeithas yn cydydffurfio â holl ofynion rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Cyflwynir	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>ffurflenni rheoleiddiol perthnasol yn ôl y gofyn, a phan fo hynny'n briodol, cynllunnir systemau, gweithgareddau a phrosesau er mwyn ystyried gofynion rheoleiddiol. Mae gweithgarwch Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd yn y maes hwn hefyd, gan adolygu cywirdeb rhai ffurflenni.</p> <p>Cyflwynir adroddiad sy'n amlinellu cwmpas y gofynion rheoleiddiol ar draws y Grŵp a'r manylion ynghylch sut y bodlonir y rhain i'r Pwyllgor U&amp;A yn ystod ei gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn. Cyflwynwyd yr adroddiad diweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2021 ac roedd yn cadarnhau, er gwaethaf y pwysau o ganlyniad i'r pandemig, y llwyddwyd i fodloni'r holl ofynion rheoliadau ar gyfer 2020 yn ddieithriad (Pwyllgor U&amp;A, Ionawr 2021, eitem 07.05 ar yr agenda).</p>	
<b>PS8.0</b>	<b>Cynllun ariannol sy'n cyflawni ac yn cefnogi'r cynllun busnes a monitro perfformiad ariannol yn effeithiol</b>			
	8.1 Sicrhau bod sefyllfa ariannol y sefydliad yn gadarn.	O	<p>Mae'r Bwrdd yn cael ac yn trafod amrediad o wybodaeth ariannol a gyflwynir fel rhan o'r adroddiad perfformiad chwarterol. Mae'r adroddiad yn cynnwys:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfrifon rheoli;</li> <li>• rhagolygon treigl; a</li> <li>• Datganiad am y sefyllfa ariannol.</li> </ul>	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
	8.2 Systemau a mesurau rheoli effeithiol yn eu lle i fonitro ac adrodd yn gywir ar gyflawni cynlluniau'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.	O	Cyflwynir adroddiad 'Diweddariad am y Cynllun Corfforaethol' a 'Diweddariad am Sicrwydd a Pherfformiad' i'r Bwrdd bob chwarter. Rhyngddynt, mae'r adroddiadau'n rhoi diweddariadau i'r Bwrdd am y cynnydd a sicrhawyd ar brosiectau corfforaethol a phrosiectau gwella, yn ogystal â diweddariad am yr hunanwerthusiad, y sefyllfa ariannol bresennol, y gofrestr risg a diweddariadau mewn perthynas â'r is-gwmnïau. Mae'r adroddiad yn nodi manylion am holl feysydd perfformiad y Grŵp, ynghyd â sut y rhoddir sylw i unrhyw faterion (gweler eitemau 12.01 a 12.02 ar yr agenda, cyfarfod Bwrdd, Chwefror 2021).	
	8.3 Monitro, adrodd ar, a chydymffurfio â phob cyfamod.	O	Bydd uwch-reolwyr yn monitro cydymffurfiaeth â'r holl gyfamodau bob chwarter, ac mae'r cyfrifon rheoli yn dangos sut y caiff cyfamodau eu cyflawni, a chyflwynir y rhain i'r Bwrdd (a benthycwyr) bob chwarter.	
<b>PS9.0</b>	<b>Rheoli gweithrediadau trysorlys yn effeithiol gan sicrhau hylifedd digonol bob amser</b>			
	9.1 Sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gyflawni'r cynllun busnes.	O	Mae cynllun busnes 2021-2025 yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ganlyniad i ddyfodiad y pandemig a'r dylanwad y mae hyn wedi'i gael ar wasanaethau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.  Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn dangos bod y Gymdeithas mewn sefyllfa gadarn i gyflawni mewn	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydydffur fiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			<p>perthynas â rhaglen uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol (adroddiad Bwrdd 14.01, Medi 2020).</p> <p>Cyflwynir datganiad am y sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod Bwrdd, sy'n nodi manylion yr ymrwymadau a'r gwariant rhagamcanol yn y dyfodol, a sut yr ariannir hwn.</p>	
	9.2 Sicrhau bod rhagolygon ariannol yn seiliedig ar dybiaethau priodol a rhesymol.	O	<p>Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r tybiaethau ariannol sy'n cynnal y modelau arfarnu dichonolrwydd datblygu a'r rhagolygon 5 a 30 mlynedd bob blwyddyn. (Gorffennaf 2020, cofnodion y Bwrdd, eitem 11.02 ac11.03).</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter gyda'r holl reolwyr er mwyn rhoi diweddariad am y rhagolwg treigl.</p>	
PS10.0	<b>Dealltwriaeth glir o ymrwymadau a pherfformiad asedau</b>			
	10.1 Cadw cofnod trylwyr, cywir a chyfredol o asedau a rhwymedigaethau gan gynnwys yr holl rwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag asedau tai cymdeithasol.	O	Cymeradwyodd y Bwrdd ffurf y gofrestr asedau a rhwymedigaethau ym mis Mai 2017 (cofnodion y Bwrdd, Mai 2017, eitem 113.05). Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd trwy gyfrwng crynodeb a gaiff ei gynnwys yn y cyfrifon rheoli chwarterol (Medi 2020, adroddiad Bwrdd 12.01, atodiad 1).	
	10.2 Data ar berfformiad ariannol a chymdeithasol asedau yn gywir ac yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar	O	Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Rheoli Asedau ddiweddaraf (Chwefror 2019, cofnodion y Bwrdd, eitem 08.09) sy'n nodi'r sail ar gyfer	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
	fuddsoddi.		<p>buddsoddi mewn asedau eiddo. Ceir tri cham ar wahân:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall y portffolio asedau,</li> <li>• Deall perfformiad asedau, a</li> <li>• Blaenoriaethu buddsoddiadau yn y portffolio asedau</li> </ul> <p>Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo rhaglen dreigl tair blynedd ar gyfer buddsoddi mewn gwaith mawr er mwyn cynnal SATC a chyflwr cartrefi. (Rhagfyr 2020, adroddiad Bwrdd 09.02).</p>	
PS10.0	<b>Dealltwriaeth glir o ymrwymadau a pherfformiad asedau</b>			
	10.3 Sicrhau bod y data ar gyflwr eu hasedau yn gyfredol ac yn gallu dangos y rhoddwyd ystyriaeth i gostau tymor byr a hirdymor y gwaith cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu.	O	Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn nodi amrediad y dulliau sydd mewn grym ac a ddefnyddir er mwyn casglu gwybodaeth am asedau ac er mwyn sicrhau y caiff ei diweddarau. Mae hyn yn cynnwys arolygon llawn am gyflwr y stoc, arolygon dilysu, cylchoedd gwaith cydymffurfiaeth, asesiadau risg tân blynyddol a thystysgrifau effeithlonrwydd ynni diwedd tenantiaeth. Cydlynir adolygiadau asedau treigl chwemisol gan y Grŵp Rheoli Asedau, sy'n ystyried perfformiad pob cartref, o ran costau a'r galw.	
	10.4 Sicrhau bod cartrefi a gyllidir gan arian cyhoeddus yn bodloni'r safonau dylunio gofynnol a Safon Ansawdd Tai Cymru.	O	Caiff yr holl dai cymdeithasol newydd a adeiladir gan y Gymdeithas, gyda chymorth GTC neu HFG, eu dylunio mewn ffordd sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â GAD a SATC a bydd Llywodraeth Cymru yn	

Cyfeirnod	Safon Perfformiad	Cydymffurfiaeth Lawn O/N	Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud o hyd / Camau Gwella
			cymeradwyo pob cynllun cyn i'r gwaith gychwyn arnynt. Adroddir i'r Bwrdd bob blwyddyn am gydymffurfiaeth barhaus â SATC (Gorffennaf 2020, adroddiad Bwrdd 11.04).	

Cymeradwywyd y Datganiad Cydymffurfiaeth hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Mawrth 2021, Penderfyniad Rhif B 08.01.

Cadeirydd:



Prif Weithredwr:



Dyddiad: 25 Mawrth 2021